Mae'r Cwrs Dylunio Cynnyrch yn eich gwahodd i. .

# SIARAD DYLUNIO yn FYW 2022

**27/5/2022 Pontio, Prifysgol Bangor**


**GWELEDIGAETH:** Mae Siarad Dylunio yn ddigwyddiad ar gyfer gweithwyr proffesiynol creadigol, gwneuthurwyr newid a dylunwyr y dyfodol. Dewch i brofi athroniaeth ddylunio flaengar, wrth i'n ffrindiau lleol, ffrindiau agos a gweledyddion o fri rhyngwladol rannu eu mewnwelediadau ar gyfer dylunio yn y dyfodol a sut i wneud i greu newid. Wedi'i hamseru i gyd-fynd ag agoriad Sioe Radd Dylunio Cynnyrch Prifysgol Bangor mae'r gynhadledd yn cychwyn dathliad dylunio – sy'n amser i fwynhau llwyddiant myfyrwyr a mentrau cydweithredol.

Mae llwyddiant dylunio yn dibynnu ar wybod beth sy'n digwydd yn y byd, mae ein siaradwyr gwadd, unwaith eto, yn rhannu gyda ni, yn ein herio, ac yn ein hysbrydoli i anelu at wneud gwahaniaeth – maent yn dangos i ni sut mae wedi'i wneud, sut mae'n dylanwadu ar fywydau a sut mae proses ddylunio dda a weithredir gyda gofal, ymrwymiad a chreadigrwydd yn gyrru newid emosiynol, diwylliannol ac ymddygiadol.

Sianel Youtube Siarad Dylunio: https://www.youtube.com/channel/UCY-HNM_v8DNKYX4vADBSjZw
Cynadleddau blaenorol - https://issuu.com/productdesignbangor

## SIARADWYR SYDD WEDI EU CADARNHAU YN 2022

### JON MARSHALL – PENTAGRAM www.pentagram.com @jonmarshalll Twitter & Instagram



Dylunydd Diwydiannol a Phartner yn Pentagram Llundain. Mae gwaith Jon yn plethu dylunio cynnyrch gyda phrofiadau strategaeth, brandio, pecynnu a digidol. Mae ei CV yn darllen fel pwy yw pwy o'r byd dylunio ac mae'n cynnwys gweithio i Ross Lovegrove, Daniel Weil, Barber Osgerby, Map yn ogystal â dylunio Torch Olympaidd Llundain 2021. Ei ddiddordeb yw gweithio gyda thechnolegau haniaethol a thechnolegau sy'n dod i'r amlwg, gan greu profiadau defnyddwyr hygyrch a chynaliadwyedd.

### JUDE PULLEN

Enillydd Gwobr "Imagnieering" Alastair Graham-Bryce 2020 (IMechE), mae Jude yn ffynnu mewn cydweithrediadau risg uchel, ansicrwydd a phwysau - i gyflawni ymgyrchoedd proffil uchel a chynhyrchion digidol/ffisegol. Mae ei waith masnachol yn gymysgedd o fewnwelediadau, strategaeth a phrofion beta cyflym mewn marchnadoedd newydd. Mae Jude, sy'n Technolegydd Creadigol ac Arbenigwr prototeipio blaenllaw, wedi gweithio i'r GIG, Dyson, LEGO, a nifer o fusnesau newydd. Mae'n un o'r wyth dyfeisiwr amlwg yng nghyfres ddogfen Big Life Fix ar BBC 2 sy'n helpu pobl ag anableddau drwy dechnoleg a dylunio.



### SAM GWILT – LAYER & SAM DOES DESIGN www.layerdesign.com www.samdoes.design



Mae Sam yn ddylunydd diwydiannol gyda chymysgedd eclectig o sgiliau. Graddiodd o Brifysgol Brunel a gweithiodd i Paul Cocksedge Studio, gan arbenigo mewn gosodiadau goleuo pwrpasol ac arddangosfeydd. Bu'n gweithio mewn ymgynghoriaeth dylunio Precipice Design am dair blynedd cyn trosglwyddo i LAYER. Mae hefyd yn rhedeg sianel Instagram a YouTube - sam_does_design - lle mae'n rhannu tipiau diwydiant gyda'r gymuned ddylunio

### PROTOLABS – SAM GUEST

Sam Guest yw'r rheolwr cynnyrch cysylltiol ar gyfer mowldio chwistrellu yn Protolabs. Gyda chefndir mewn peirianneg, gwerthu a gweithgynhyrchu, mae Sam yn aelod annatod o'r Tîm Rheoli Cynnyrch Ewropeaidd yn. Mae'n gyfrifol am esblygu'r cynnig mowldio chwistrellu'n barhaus fel y gall Protolabs gynorthwyo defnyddwyr terfynol drwy ddarparu gwasanaeth gorau posibl. Mae arbenigedd Sam yn cyrraedd y tu hwnt i'r gwasanaethau craidd ac mae'n berthnasol i ddatblygu ac integreiddio cymwysiadau ehangach.



**VICTORIA RUSHTON – GERALLT EVANS METALCRAFT (Alumni)** @gerralltevansmetalcraft - Insta



Wedi graddio o'r cwrs dylunio cynnyrch ym Mangor, mae Victoria bellach yn gyfarwyddwr cwmni yn Gerallt Evans Metalcraft yn Nhan Lan, Abergele. Mae Gerallt Evans Metalcraft yn gwmni saernïo metel crefftus, sy'n cyfuno gwaith metel traddodiadol gyda thechnoleg a gweithgynhyrchu modern i greu eitemau hollol bwrpasol, moethus, ar raddfa a fyddai'n dychryn y rhan fwyaf o bobl!

www.eleanorbeer.com **ELEANOR BEER – SKETCH ARTIST**



Mae Eleanor Beer yn hwylusydd graffig rhyngwladol sy'n arbenigo mewn darparu atebion gweledol a gwasanaethau hyfforddi. Ei nod craidd yw symleiddio cyfathrebu drwy adrodd straeon gweledol ac i helpu sefydliadau i ddod yn feddylwyr a chydweithredwyr mwy effeithlon a chreadigol. Yn ystod y 15 mlynedd diwethaf, mae Eleanor wedi cefnogi brandiau byd-eang ar draws tri chyfandir, o Williams F1, Siemens a Sefydliad Iechyd y Byd, i elusennau bach, mentrau gofal cymdeithasol a grwpiau cymunedol lleol.

**DANIEL ANDREWS – FLARE AUDIO (Alumni)** https://www.flareaudio.com/ pato_loco_designs - Insta



Graddiodd Daniel yn 2020 o'r cwrs dylunio cynnyrch ym Mhrifysgol Bangor. Ers graddio, parhaodd i ddatblygu ei sgiliau dylunio drwy weithiom llawrydd a chyflawni tasgau dylunio ar-lein wythnosol. Sicrhaodd Daniel ei swydd gyntaf fel dylunydd cynnyrch yn Flare Audio (yn dilyn proses gyfweld ddiddorol iawn). Mae Daniel hefyd yn aelod o Tekno Remote Control Car UK lle mae'n rasio mewn digwyddiadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

**STEPHEN GRIFFITHS – AYD: HEIGHT AND MARINE SAFETY SOLUTIONS**



Mae AYD yn arweinydd wrth ddylunio diogelwch uchder, gan gynnwys offer disgynnol ac achub ar gyfer cynulleidfa fyd-eang. Mae AYD yn mwynhau'r her o ddatblygu datrysiad o gysyniad cychwynnol, drwy prototeipio a phrofi i gynnyrch â weithgynhyrchwyd. Mae AYD yn defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf ar bob cam, ac mae ganddynt y gallu ar gyfer gwasanaeth dylunio mewnol, argraffu a modelu 3D. Gallant hefyd gynnal profion mewnol ar gyfer perfformiad statig a deinamig er mwyn darparu ateb cyflawn.

**27/5/2022– Pontio, Prifysgol Bangor 09:00 – 15:30**

Bydd hwn yn ddigwyddiad wedi ei dicedi, ond bydd tocynnau am ddim ar gael i staff a myfyrwyr Prifysgol Bangor, ond bydd angen cofrestru drwy e-bostio.

E-bost i.p.williams@bangor.ac.uk

Instagram: https://www.instagram.com/productdesignbangor/

Tudalen digwyddiad facebook: https://fb.me/e/mYn1GVLxE

Tudalen wê Prifysgol Bangor: https://www.bangor.ac.uk/cy/digwyddiadau/siarad-dylunio-yn-fyw-2022

**Tocynnau** drwy Siop ar-lein Prifysgol Bangor: https://shop.bangor.ac.uk/product-catalogue/ysgol-cyfrifiadureg-a-pheirianneg-electronigschool-of-computer-science-and-electronic-engineering/talk-design-live-2022-siarad-dylunio-yn-fyw-2022

DYLUNIO CYNNYRCH

PRODUCT DESIGN